

Pwy Wnaeth Be ?

Ers Mai 1999, profodd Cymru nifer o ddatblygiadau cynhenid:

O'r Cynulliad:

- Gweld diwedd y profion i ddisgyblion 11 oed
- Creu *Cyswllt Ffermio* i helpu teuluoedd sydd yn ffermio
- Pobl 60 oed a throsodd yn gallu nofio am ddim ym mhyllau nofio'r awdurdodau lleol
- Cychwyn y Fenter Brecwastau am Ddim mewn Ysgolion
- Ffi am bresgripsiynau i ostwng £1 i £5
- Pas bws am ddim a theithio hanner pris ar gyfer pensiynwyr a theithwyr anabl

O San Steffan gyda'r Cynulliad:

- Bydd Cymru yn elwa ar £555 miliwn ychwanegol o goffrau'r Trysorlys er mwyn cefnogi'r broses o roi rhaglenni'r cronfeydd strwythurol ar waith
- Cymeryd y cam cyntaf i sefydlu Comisiynydd Pobl Hyn annibynnol yng Nghymru
- Apwyntio Comisiynydd Plant. Y swydd gyntaf o'r fath yn y Deyrnas Gyfunol

Cymru a'r Deyrnas Gyfunol

- Gan ddilyn yr arian Amcan Un a roddwyd i Gymru cyhoeddwyd y byddai ardaloedd yn Lloegr yn derbyn £600 miliwn
- Gwelwyd rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol yn dilyn esiampl Cymru drwy benodi Comisiynydd Plant
- Ynghylch addysg ôl-16, darparodd Cynllun Gweithredu Hyfforddiant Cymru batrwm buddiol ar gyfer yr Adran Addysg yn Lloegr

Yr Eglwysi, San Steffan a'r Cynulliad

Gair ar Gyfer Etholiad 05

Swyddog Cyswllt CYTÛN ar Gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, CYTÛN, 58 Ffordd Richmond, Caerdydd, CF24 3UR. 02920464378 ne 07751446071

Rhan yr Eglwysi

Ers sefydlu'r Cynulliad, mae'r eglwysi a wasanaethir gan CYTÛN (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) wedi cael cysylltiad llawer mwy uniongyrchol â'r bobl sydd â grym gwleidyddol yng Nghymru ac yn y DG yn gyffredinol. Mae Swyddog Cyswllt CYTÛN ar Gyfer y Cynulliad yn gweithio'n feunyddiol gydag aelodau'r Cynulliad, aelodau'r cabinet, y pwyllgorau rhanbarthol a'r pwyllgorau pwnc a chydweithwyr yn San Steffan. Erbyn hyn mae arweinwyr cenedlaethol cymunedau ffydd Cymru yn cwrrd â Phrif Weinidog y Cynulliad ac arweinyddion y pleidiau eraill bob chwe mis i drafod materion o ddiddordeb cyffredin.

Mae'r cymunedau ffydd yng Nghymru hefyd wedi cael cynrychiolaeth ar Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Bu'r Cyngor yn weithga,r er enghraifft, wrth gael y Cynulliad i ymateb i ymadawiad Cymdeithas y Plant o Gymru. Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau yr ymgynghorir â sefydliadau yn fuan am bolisiau'r Cynulliad. Y mae, o bryd i'w gilydd, wedi dylanwadu rywfaint ar bolisiau'r DG. Ynghyd â nifer o rai eraill, llwyddodd y Cyngor i ddadlau dros wneud i ffwrdd â'r ffi ar gyfer gwirio recordiau troseddol.

Gobeithir bydd y nodiadau briffio hyn o gymorth i bleidleiswyr Cristnogol i ddeall rôl arbennig aelodau Seneddol a'r Cynulliad Cenedlaethol i Gymru.

Aelodau Seneddol

Mae'r cyfrifoldeb dros nifer o feysydd polisi yn parhau yn San Steffan:

- Polisi economaidd cyffredinol
- Amddiffyn a'r Lluoedd Arfog
- Polisi Tramor
- Y system cyfiawnder a charchardai
- Yr heddlu
- Darlledu
- Y Loteri Cenedlaethol a materion cysylltiedig
- Nawdd Cymdeithasol a budd-daliadau
- Polisi cystadleurwydd
- Polisi'r farchnad lafur
- Pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol

Aelodau'r Cynulliad

Yn gyffredinol, mae'r Cynulliad â chyfrifoldeb dros y meysydd canlynol:

- Datblygu diwydiannol, economaidd a chymdeithasol
- Addysg a hyfforddiant
- Amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd a bwyd
- Llywodraeth leol, tai, gwasanaethau cymdeithasol, trafndiaeth, cynllunio, yr amgylchedd a'r gwasanaeth tân
- Y celfyddydau, diwylliant a'r iaith Gymraeg

Pwy sy'n penderfynu be ?

Yr Economi - Mae'r economi yn diffinio strategaeth datblygu economaidd a chymdeithasol gyffredinol i Gymru, a sut i'w chyflwyno trwy gyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, ond mae llywodraeth San Steffan yn darparu cymorth ariannol i fusnes yn y DG yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys Cymru.

Addysg a Hyfforddiant - Mae'r Cynulliad yn gosod safonau ar gyfer ysgolion yng Nghymru ac ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac mae'n goruchwyllo safonau dysgu. Mae San Steffan yn parhau i fod yn gyfrifol am recriwtio athrawon, ac agweddau ar ariannu myfyrwyr ond mae wedi trosglwyddo pwerau sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr a ffioedd dysgu i'r Cynulliad

Iechyd - Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, ac am agweddau mwy cyffredinol ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae San Steffan â chyfrifoldeb am agweddau penodol megis trefniadau dirprwyo a geneteg ddynol.

Amaethyddiaeth, Coedwigaeth, Pysgodfeydd a Bwyd - Mae swyddogaethau'r Cynulliad yn cwmpasu'r mwyafrif o agweddau ar bolisi amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd a bwyd. Mae llawer o'r polisi hwn yn cael ei benderfynu ar lefel Ewropeaidd. Caiff y cyfrifoldeb ei rannu dros faterion megis rheoleiddio plaleiddiaid, sicrhau ymagwedd strategol ar gyfer coedwigaeth, hybu bwydydd tramor ac iechyd bwyd.

Llywodraeth Leol - Mae strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn wahanol i weddill y DG. O ganlyniad, mae'r Cynulliad

wedi datblygu polisiau gwahanol, e.e. Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru fwy o ryddid i benderfynu faint o arian fydd ysgolion yn ei dderbyn. Mae San Steffan yn parhau i ariannu'r gwasanaeth tân yng Nghymru, ac yn rhannol ariannu awdurdodau'r heddlu.

Tai - Nid oes gan San Steffan swyddogaethau tai sylweddol yng Nghymru, ac eithrio materion yn ymwneud â budd-daliadau tai a budd-daliadau cymdeithasol.

Gwasanaethau Cymdeithasol - Caiff llawer o wasanaethau cymdeithasol eu darparu gan yr awdurdodau lleol, ac mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb i sicrhau safonau gwasanaeth cyson. Mae San Steffan wedi cadw rhai swyddogaethau, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder.

Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd - Mae swyddogaethau trafndiaeth y Cynulliad yn ymwneud â thrafnidiaeth ffyrdd, diogelu'r amgylchfyd a chyflenwi dŵr. Mae hefyd yn gyfrifol am reoli llygredd môr hyd at 12 milltir o'r arfordir.

Y Celfyddydau, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg - Yr unig swyddogaethau sydd yn parhau i berthyn i'r Llywodraeth yw'r Loteri Cenedlaethol. Mae'r Cynulliad yn penderfynu polisi ar yr iaith Gymraeg, henebion ac adeiladau wedi'u rhestru, a'r Celfyddydau yng Nghymru.

Polisi Tramor - Mater i San Steffan yw polisi tramor ond fe all y Cynulliad fynegi barn ar unrhyw beth sydd o bwys i Gymru a chysylltu â San Steffan. Hyd yma, mae'r aelodau wedi:

- **hyrwyddo ymgyrchoedd farchnad deg yn y Cynulliad**
- **mynegi pryder wrth y Swyddfa Gartref ynghylch cadw rhai sy'n ceisio lloches yng ngharchar Caerdydd yn 2001 a 2004**
- **achub y blaen ar senedd-dai y DG drwy gydnabod yr hillyddiad yn Armenia.**

Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol

Pwrpas

Yn ôl yr Arglwydd Ganghellor, fe grewyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn: 'cyflawni swyddogaeth weithredol, yn defnyddio'r pwerau gweithredol a berthynai i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac felly yn darparu fframwaith mwy tryloyw a democrataidd ar gyfer llywodraethu Cymru.'

Gosod Cyllideb

Yn ystod Mawrth 2005, cyhoeddwyd taflen yn amlinellu'r newidiadau y gall pobl Cymru ddisgwyl eu gweld o ganlyniad i gynlluniau gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y tair blynedd nesaf: 8 ysbyty newydd arfaethedig a gwelliannau mawr mewn rhai eraill, o leiaf 56 prosiect mawr ym maes adeiladau ysgolion, 400 yn rhagor o feddygon a 3,000 yn rhagor o nyrsys, dim taliadau am bresgripsiynau erbyn 2007, pasiau bws am ddim i bobl 60 oed a throsodd, a phobl anabl, sesiynau nofio am ddim i blant a phobl hŷn a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd

Deddfwriaeth

Caiff Deddfau Seneddol sy'n effeithio ar Gymru eu pasio yn San Steffan. Wedi dweud hyn, bydd San Steffan a'r Cynulliad yn gwneud defnydd helaeth o ddeddfu isradd trwy offerynnau statudol, rheolau, rheoliadau a chodau ymarfer. Mae gan y Cynulliad nid yn unig yr hawl i gymeradwyo neu i wrthod cymeradwyo is-ddeddfwriaeth, ond yn ogystal i'w diwygio yn ei ffurf drafft. Yn San Steffan, gwaherddir yr aelodau rhag diwygio is-ddeddfwriaeth. Ni welodd y Cynulliad yn dda i basio pob deddfwriaeth o eiddo San Steffan sy'n effeithio ar aeiswyr lloches.